Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

# CYLCHLYTHYR

Rhifyn 19, Chwefror 2025

## Yn y rhifyn hwn


Cyflwyniad ........ 2

Diwrnod Peirianneg Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (GYA) ........ 3

Digwyddiad Lansio Fframwaith Adeiladu ar gyfer Cymru 2 y GIG ........ 4

IP5 a'r fferm Solar ........ 6

Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf o Syrfewyr ........ 8

Newidiadau staff ........ 10

Y Gornel Hanes: Ysbyty Glanrhyd ........ 11





GIG CYMRU NHS WALES

Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

Shared Services Partnership
Specialist Estates Services

## Neges gan Stuart, ein Cyfarwyddwr

Mae'r Nadolig wedi mynd a dod, ac mae llawenydd diwedd y flwyddyn ariannol ar ein gwarthaf yn barod!

Wrth edrych trwy gynnwys ein cylchlythyr gwanwyn, mae'n wych gallu ystyried rhai o'r pethau da iawn sy'n digwydd yn GIG Cymru.

Daeth nifer dda iawn i'n diwrnod Peirianneg ar 11 Tachwedd 2024 a chyda chymorth gan ein cydweithwyr ar draws GIG Cymru roeddem yn gallu ymdrin ag amrywiaeth eang o faterion perthnasol. Ar adegau pan fo staff dan bwysau mawr gyda'u swyddi, mae'n wych gweld pobl yn cymryd amser i ddysgu gyda'i gilydd ac yn rhannu eu profiadau.

Roedd lansio Fframwaith Adeiladu ar gyfer Cymru 2 yng Ngwesty'r Village ym mis Ionawr yn garreg filltir bwysig, oherwydd ein bod unwaith eto yn gallu cynnig mynediad i'r amrywiaeth lawn o ddisgyblaethau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau datblygu gofal iechyd o'r radd flaenaf yng Nghymru tan 2030 o bosibl. Roedd yn wych bod cefnogaeth eang i gyflwyno rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer cyflwyno prosiectau'n llwyddiannus. Rydym yn obeithiol y bydd cydweithwyr yn ymuno, i ddysgu ac i rannu eu sgiliau a'u profiadau.

Aeth ein datblygiad fferm solar yn warws a chanolfan ddosbarthu IP5 PCGC yng Nghasnewydd yn fyw yn yr hydref. Roedd y prosiect yn cynnwys arae ffotofoltäig solar 330kw a seilwaith gwefru cerbydau trydan ar gyfer gosod mannau gwefru cerbydau trydan (EVCP) yn y dyfodol. Mae Mark Roscrow, ein Huwch-berchennog Risg ar gyfer y cynllun, yn ein gadael i ymddeol o'r diwedd ddiwedd mis Mawrth a bydd yn gadael gyda'n diolch a'n dymuniadau gorau.

Gan edrych i'r genhedlaeth nesaf, rhoddir sylw i'n gwaith gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) i hyrwyddo'r proffesiwn tirfesur i bobl ifanc. Mae hyn yn adlewyrchu ein huchelgais cyffredinol i ddenu pobl i'r diwydiant adeiladu a thirfesur ac yn ddelfrydol i gefnogi'r sector iechyd!

Yn olaf, rydym wedi gwneud rhai penodiadau gwych yn y cyfnod diwethaf hwn, ond wna i ddim difetha'r cyhoeddiadau - gweler ein darn olaf!

Dymuniadau gorau, Stuart

**Stuart Douglas**
Director

stuart.douglas@wales.nhs.uk






# Diwrnod Peirianneg Gwasanaethau Ystadau Arbenigol (GYA) – 7 Tachwedd 2024

*Diwrnod Peirianneg GYA oedd y diwrnod astudio cyntaf a gynhaliwyd ar Faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ers sawl blwyddyn.*

Mae'n briodol dweud bod y diwrnod wedi bod yn llwyddiant ysgubol gyda phresenoldeb rhagorol gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru, a'r timau Ystadau a Chyfalaf yn cael eu cynrychioli. O'r adborth a gawsom ar y diwrnod, roedd yn ddychweliad derbyniol ac yn ddigwyddiad hir-ddisgwyliedig lle roedd y tîm peirianneg yn gallu cyflwyno nifer o themâu a ysgogodd drafodaeth wybodus ymhlith y cynrychiolwyr a'r siaradwyr.

Rhoddodd yr ystod o bynciau'n eang gyda rhywbeth i bob un o'r cynrychiolwyr oedd yn bresennol ddiddori ynddo.

Agorwyd y diwrnod gyda Mark Gapper, Pennaeth Peirianneg, gyda chroeso i'r holl fynychwyr a noddwyr y digwyddiad. Cyflwynodd y siaradwyr eraill, a oedd yn cynnwys aelodau o GYA yn ogystal â chynrychiolwyr o nifer o Fyrddau Iechyd GIG Cymru a'r sector preifat. Roeddent yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o rannu'r llwyddiant ar brosiectau a gwblhawyd yn ddiweddar megis Memorandwm Technegol Iechyd Cymru: 08-02 Lifftiau i gyflwyniad diweddar y Ddeddf Diogelwch Adeiladau yng Nghymru a'i heffaith ar Ystadau'r GIG. Roedd pynciau technegol hefyd yn cynnwys Switsfyrddau Trydan ac adnewyddu unedau trin aer.

Un maes trafod oedd manteision cymwysiadau awyrennau di-griw (dronau) a'r manteision a ddaw yn sgil defnyddio'r dyfeisiau, megis arolygu toeau neu gyrn simnai heb y risg o orfod gweithio ar uchder. Mae manteision cost hefyd i ddefnyddio dronau gan ei bod yn gyflymach ac yn fwy diogel i staff ddod o hyd i'r broblem a dyfeisio datrysiad.

Cafwyd y cyflwyniad olaf gan Ray Selby, ein Pennaeth Datblygu Ystadau blaenorol ar 'gyflwyno Achosion Busnes' lle rhannodd rai o'i sylwadau a'i fyfyrdodau ar gyflwyniadau diweddar i Lywodraeth Cymru a'r pwyntiau allweddol i'w cynnwys mewn achos busnes a fydd yn cynyddu'r gobaith o gynnig llwyddiannus.

Daeth y diwrnod i ben gyda thrafodaeth grŵp dan arweiniad John Prendergast ar y materion a godwyd yn ystod y dydd i sicrhau bod pawb sydd â diddordeb yn gytûn mewn perthynas ag ystâd GIG Cymru.

Fel sy'n wir wrth drefnu digwyddiad, ni fyddem wedi gallu gwneud hyn heb gefnogaeth ein noddwyr:- Akrivis, APS, Bender UK, Consilium, Daikin, Delabie, EWP, Ideal, ILECS, Moduco, ProEconomy, Protectorcomms, Schneider, Thorlux, TSafe, a Wandsworth. Diolchwn iddynt am eu nawdd sydd ein galluogi i drefnu digwyddiad y dydd.

**Tony Goddard**
*Prif Beiriannydd Trydanol*




# Digwyddiad Lansio Fframwaith Adeiladu ar gyfer Cymru 2 y GIG

*Ym mis Ionawr 2025 yng Ngwesty'r Village, Caerdydd, cynhaliwyd digwyddiad lansio Adeiladu ar gyfer Cymru 2 y GIG, y genhedlaeth ddiweddaraf o fframweithiau adeiladu a sefydlwyd ar gyfer cyflawni prosiectau adeiladu cyfalaf mawr ar gyfer GIG Cymru gyda gwerth adeiladu o fwy na £7 miliwn.*

Roedd y digwyddiad yn benllanw proses gaffael gymhleth a hirfaith dan arweiniad tîm Adeiladu ar gyfer Cymru o fewn Gwasanaethau Ystadau Arbenigol mewn cydweithrediad â chydweithwyr o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, PCGC – Gwasanaethau Caffael, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, ac Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. Diolchir i holl bersonél y Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau yr oedd eu cyfraniad i'r broses werthuso yn hanfodol er mwyn dyfarnu contractau i'r partneriaid fframwaith newydd. Byddant yn darparu gwasanaethau rheoli prosiect, cynghorydd costau, goruchwyliwr NEC a phrif gontractwyr drwy'r fframweithiau newydd.

Daeth nifer dda i'r digwyddiad gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ledled Cymru, Partneriaid Fframwaith, Sefydliadau Prentisiaethau, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a chydweithwyr GYA.

Agorodd Stuart Douglas, Cyfarwyddwr GYA, y digwyddiad a chroesawodd y gynulleidfa. Eglurodd y cefndir gyda throsolwg o'r amgylchedd newydd y bydd y fframweithiau'n gweithredu ynddynt gyda chyfrifoldeb ar y cyd am gyflawni prosiectau llwyddiannus ar gyfer GIG Cymru.

Dilynodd Ian Gunney, Dirprwy Gyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau Cyfalaf y GIG Llywodraeth Cymru, gydag anerchiad allweddol yn cydnabod y buddion a gyflawnwyd drwy bob un o iteriadau fframweithiau adeiladu'r GIG ers dechrau Cynllun Oes 1 yn ôl yn 2006. Ychwanegodd mai cefnogaeth y fframwaith i ysgogi arloesedd i gael a dangos gwerth gorau oedd y rheswm ein bod i gyd yma eto pan fyddwn yn wynebu heriau ariannol parhaus ac ôl-groniad o bwysau sylweddol.



Andrew Waddington

Darparodd Andrew Waddington, Pennaeth Adeiladu ar gyfer Cymru, drosolwg o'r strwythur fframwaith newydd a sut y gall Cleientiaid posibl ddefnyddio'r fframwaith. Amlinellodd rai o'r newidiadau gweithdrefnol a gyflwynwyd i alluogi'r fframwaith i gefnogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yn well i ddatblygu eu cynigion. Amlygodd hefyd feysydd eraill

o arferion gorau a fabwysiadwyd sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni prosiectau'n llwyddiannus.

Dilynwyd hyn gan gyflwyniad pellach gan Stuart Douglas ar Raglen Gyfalaf Llywodraeth Cymru a'r ddau brif lwybr ariannu ar gyfer achosion busnes drwy Raglen Gyfalaf Cymru Gyfan a'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso. Pwysleisiodd fod gydweithio er mwyn sicrhau bod prosiectau'n aros o fewn y gyllideb a neilltuir iddynt ac yn cael eu cyflawni yn unol â'r rhaglen.

Yna amlinellwyd y broses o ddewis cyflenwyr o'r fframwaith yn fanylach gan Andrew Waddington. Dilynodd Cat Griffiths-Williams, Prif Swyddog Gweithredol, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, gyda chyflwyniad ynghylch manteision fframweithiau yng Nghymru ac anogodd bawb a oedd yn bresennol i groesawu'r heriau presennol i droi uchelgeisiau'n realiti a nodi'r gwaith a wnaed i ddarparu Ysbyty Athrofaol y Faenor fel enghraifft o effeithiolrwydd arferion cydweithredol.

Gorffennodd Jonathan Jones, Rheolwr Fframwaith, ac Emma Mazey, Swyddog Gwybodaeth, y trafodion drwy fynd drwy ofynion craidd y fframwaith o ran perfformiad, Carbon Sero Net, Cynlluniau Prentisiaeth, Gwerth Cymdeithasol a Chyfathrebu.



Jonathan Jones

Yn dilyn sesiwn holi ac ateb gyda'r holl siaradwyr, daeth Stuart Douglas â'r trafodion i ben, gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb ac edrych ymlaen at weithio gyda nhw i barhau i ddarparu cyfleusterau gofal iechyd o'r radd flaenaf ledled Cymru.

Diolch yn arbennig i dîm gweinyddol GYA (Emma Mazey a Joanne Munn) am eu cefnogaeth i gynnal y digwyddiad.

**Andrew Waddington**
*Pennaeth Adeiladu GIG Cymru*






# IP5 a'r fferm Solar

Caffaelodd GYA IP5 ym mis Mawrth 2019 gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddarparu gwytnwch yn y Gadwyn Gyflenwi gyda'r trefniadau Brexit oedd ar ddod.

Y syniad oedd darparu digon o le storio ychwanegol gan ddefnyddio'r 5000 o leoedd paled a oedd eisoes yn yr adeilad ac yna dod o hyd i ddefnyddiau eraill ar gyfer y gofod ychwanegol.

Roedd cynllun busnes yn cael ei ddatblygu ac ar fin cael ei gwblhau pan darodd pandemig COVID yn 2020. Profodd IP5 i fod yn rhan hanfodol o ymateb y GIG i COVID mewn nifer o ffyrdd:

- *Sefydlwyd Labordy Goleudy fel prif ganolfan profi COVID yng Nghymru.*
- *Adeiladwyd Labordy ychwanegol sydd bellach yn gartref i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac yn rhan o'r uned Fferylliaeth.*
- *Sefydlwyd cyfleuster ar gyfer Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol (SMTL ) a oedd yn gwella'r gallu i gefnogi dilysu defnyddiau traul meddygol a ddefnyddir yn GIG Cymru.*
- *Roedd y gofod ychwanegol yn hanfodol i storio mwy o Gyfarpar Diogelu Personol, a oedd yn broblem fawr yn ystod y cyfnod COVID. Roedd y gofod yn help mawr o ran darparu GIG Cymru a gofal cymdeithasol â stoc o'r deunyddiau allweddol.*
- *Profi a chomisiynu peiriannau anadlu ar gyfer cleifion COVID trwy'r adran Peirianneg Electro-Fiofeddygol (EBME).*
- *Dosbarthu pecynnau Cyfarpar Diogelu Personol i leoliadau gofal cymdeithasol ledled Cymru*
- *Canolbwynt y rhaglen frechu ar gyfer y rhaglen COVID a darparu brechlynnau ledled Cymru*
- *Sefydlu ystafell lân ar gyfer cynhyrchu nwyddau fferyllol.*

Mae'r cyfnod ôl-COVID wedi gweld y cyfleuster yn cael ei gyfuno gan fod y buddion y mae'n eu darparu i bob rhan o GIG Cymru nawr yn cynnwys y canlynol:

- *Darparu rhaglen brechu COVID a ffliw'r gaeaf ledled Cymru.*
- *Ymestyn y storfa racio i helpu i ehangu'r amrywiaeth o gynhyrchion a gedwir ac i wella gwydnwch.*
- *Ymestyn y cyfleuster cynhyrchu fferyllol a fydd yn arwain at adeiladu'r unedau Fferylliaeth Radio a Thrawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TRAMs) ar gyfer De  Ddwyrain Cymru yn IP5 a fydd yn helpu i wella'r cyflenwad o gynnyrch i gleifion Canser.*

Yn ystod daliadaeth PCGC gwnaed buddsoddiad pellach yn yr adeilad, sy'n cynnwys:

- Newid pob golau i oleuadau LED a system reoli integredig.
- System fonitro ganolog ar gyfer yr holl fesuryddion ynni sy'n rhoi gwybodaeth amser real i ni am y defnydd o ynni, gan gynnwys cynhyrchu solar ffotofoltäig
- Buddsoddiad mewn paneli solar sy'n lleihau ein hôl troed carbon yn aruthrol yn ogystal â'n costau ynni sydd hefyd yn cefnogi'r fflyd o gerbydau trydan sydd bellach yn gweithredu o'r safle.

Mae'r prosiect Ffotofoltäig (PV) yn IP5, Casnewydd, yn rhan o uchelgeisiau PCGC i ddatgarboneiddio ein hystad yn unol â'r targedau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Fel rhan o'r rhaglen, mae'r Cydwasanaethau yn gweithredu amrywiaeth o fentrau datgarboneiddio gan gynnwys gosod offer ffotofoltäig, Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan (EVCPs), gwelliannau i adeiladwaith a monitro ynni.

Ar ôl cwblhau'r arolygon cychwynnol, amlygwyd bod gan safle warws IP5 PCGC botensial uchel ar gyfer cynhyrchu ynni glân drwy ddefnyddio dulliau solar ffotofoltäig (PV).

Gall gweithredu prosiect solar fel hwn fynd i'r afael â nifer o faterion sy'n ymwneud â defnyddio ynni a charbon, gan ddarparu atebion sy'n cyfrannu at nodau cynaliadwyedd ac amgylcheddol.

Mae'r prosiect yn cynnwys arae ffotofoltäig solar 330kw a allai gynhyrchu tua 290,479kW awr o drydan y flwyddyn. Roedd y prosiect yn cynnwys gosod seilwaith EVCP fel rhan o'r gwaith dylunio a gosod, gan gynnwys seilwaith trydanol i alluogi gwefrwyr yn y dyfodol i fwydo drwy'r system ffotofoltäig.

Rydym eisoes wedi cyflawni cynhyrchu bron i 90% o'r pŵer sy'n cael ei ddefnyddio ar adeg benodol ar ddiwrnod heulog ym mis Tachwedd 2024. Wrth symud ymlaen, bydd y cam nesaf yn cynnwys cyflwyno EVCPs a batri wrth gefn ar y safle, a fydd yn ategu'r prosiect ffotofoltäig a gwella dyheadau datgarboneiddio PCGC ymhellach.

Ym mis Rhagfyr 2024, rhoesom Wobr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru am Ragoriaeth Adeiladu i EFS Systems (UK) Limited am eu Gwaith ar y fferm solar.




EFS Systems Presented with Award

*Diolch yn arbennig i Mark Roscrow Pennaeth Caffael PCGC am yr wybodaeth*

**Emma Mazey**
*Swyddog Gwybodaeth*





# Ysbrydoli'r Genhedlaeth Nesaf o Syrfewyr

Ym mis Mawrth 2023 deuthum yn Llysgennad InspireSTEM ar gyfer fy sefydliad proffesiynol, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS).

Mae rhaglen Inspire RICS yn arddangos y proffesiwn i'r genhedlaeth nesaf. Mae mentrau sy'n cael eu rhedeg gan y rhaglen yn ysbrydoli pobl ifanc a dylanwadwyr ynghylch rôl tirfesur wrth lunio ein byd ac arfogi pobl ifanc â'r sgiliau sydd eu hangen i ddilyn gyrfa tirfesur broffesiynol.

Mae bwlch sgiliau yn bygwth dyfodol y proffesiwn. Mewn arolwg diweddar gan RICS o'r Farchnad Adeiladu a Seilwaith, nododd 66% o'r rhai a wnaeth ymateb o'r DU bod prinder syrfewyr a dywedodd 54% eu bod yn gweld prinder gweithwyr adeiladu proffesiynol eraill. A chyda nifer sylweddol o'r proffesiwn tirfesur dros 50 oed, rhaid inni ddenu a chadw'r dalent orau.

Mae prinder dybryd o ran syrfewyr Eiddo Tirol yng Nghymru yn arbennig. Mae hyn yn bennaf oherwydd na fu'r un cwrs arolygu Eiddo Tirol yn cael ei gynnig gan brifysgol yng Nghymru am yr 20 mlynedd diwethaf. Newidiodd hyn yn ddiweddar diolch i Clive Ball, Pennaeth Eiddo yn GYA, yn lobïo am ailddechrau cyrsiau arolygu Eiddo Tirol yng Nghymru a gweithio gyda Phrifysgol De Cymru i gyflwyno cwrs gradd Eiddo Tirol newydd a ddechreuodd ym mis Medi 2023 ac a achredwyd gan RICS yn 2024.




Sadie-Marie Enoch, Sian Cornwell-Shaw

Ar hyn o bryd mae GYA yn gartref i fyfyriwr sy'n astudio'r cwrs Eiddo Tirol newydd hwn, trwy'r llwybr Rhwydwaith75, ac mae'n bwriadu derbyn myfyriwr Rhwydwaith75 arall bob yn ail flwyddyn. Deuthum yn gwbl ymwybodol mai gwybodaeth gyfyngedig iawn oedd gan fyfyrwyr a disgyblion mewn colegau ac ysgolion am alwedigaeth tirfesur felly cysylltais â thîm Ymgysylltu Cynnar RICS ynghylch sut y gallem godi mwy o ymwybyddiaeth o dirfesur fel gyrfa i ddisgyblion ysgol a choleg a gofynasant a hoffwn fod yn un o'u Llysgenhadon STEM Inspire RICS.

Mae rôl Llysgennad STEM Inspire RICS yn cynnwys ymweld ag ysgolion a cholegau a chynnal sgyrsiau am beth yw tirfesur, y llwybr i'r proffesiwn, y rhagolygon gyrfa, fy rôl bresennol a phrosiectau diddorol rwyf wedi gweithio arnynt. Rwy'n gwneud gweithgareddau rhyngweithiol gyda'r myfyrwyr i ddod â'r hyn y mae syrfëwr yn ei wneud yn fyw yn yr ystafell ddosbarth. Rwyf hefyd yn mynychu ffeiriau gyrfaoedd mewn ysgolion a cholegau gyda stondin i hysbysu'r myrfyrwyr a'r athrawon drwy roi llenyddiaeth iddynt.

Ers cofrestru yn Llysgennad Inspire rwyf wedi cynnal tua 15 o sgyrsiau â chymysgedd o oedrannau myfyrwyr o ysgolion, colegau a phrifysgolion sy'n ymweld. Rwyf hefyd wedi mynychu 10 o ffeiriau gyrfaoedd sydd â rhwng 100 – 500 o fyfyrwyr yn bresennol yn gyffredinol, gydag athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd hefyd yn bresennol ac rwyf wedi rhoi mwy o sgyrsiau a ffeiriau gyrfaoedd eisoes yn fy nyddiadur ar gyfer 2025.

Rwyf hefyd wedi cael gwahoddiad i fod yn fentor ar gyfer Prosiect Chweched Dosbarth Cynllun Addysg Beirianneg Cymru (EESW) eto eleni. Mae EESW yn sefydliad a ariennir gan STEM Cymru Lywodraeth Cymru ac mae eu prosiect chweched dosbarth yn gofyn i fentoriaid ddarparu briff dylunio i fyfyrwyr weithio arno, a mentora'r myfyrwyr a ddyrannwyd i'r briff hwn. Mae diwrnod gwobrau gwych lle mae'r myfyrwyr sy'n ymgymryd â'r holl friffiau amrywiol gan yr holl fentoriaid yn dod ynghyd ac mae eu prosiectau'n cael eu harddangos a'u beirniadu mewn categorïau penodol ar gyfer gwobrau i'r timau a'r ysgolion. Y llynedd, bûm yn mentora ysgol a enillodd y wobr gyntaf, fu'n brofiad pleserus iawn. Eleni, rwy'n mentora tair ysgol wahanol a hyd yn hyn, mae'r disgyblion yn cwblhau eu prosiectau yn arbennig o dda. Rwy'n edrych ymlaen at weld eu cyflwyniad terfynol a'u prosiect yn barod ar gyfer y seremoni wobrwyo yn y gwanwyn.

Rwyf wedi sefydlu a chadeirio fforwm ar gyfer holl Lysgenhadon STEM Inspire RICS Cymru, a ddechreuodd fis Ionawr eleni, i rannu ein profiadau a'r gobaith yw annog mwy o aelodau RICS i gofrestru yn llysgenhadon. Rwyf hefyd yn gweithio gyda Phrifysgol De Cymru a RICS Cymru i drefnu Diwrnod Blasu Tirfesur ar gyfer yr holl fyfyrwyr sy'n astudio'r cyrsiau TGAU a Safon Uwch Amgylchedd Adeiledig yn Ne Cymru sydd i'w gynnal yn Haf 2025.

**Sian Cornwell-Shaw**
*Uwch Syrfëwr Eiddo*





# Newidiadau staff

Rydym yn falch iawn o gadarnhau penodiad ***Mike Travers*** i swydd Pennaeth Datblygu Ystadau ac rydym yn edrych ymlaen ato'n parhau â'i waith rhagorol gyda chydweithwyr i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid. Mae Mike yn cymryd yr awenau gan ***Ray Selby***, sy'n symud i'r gorllewin i ddechrau swydd newydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Hoffem anfon ein dymuniadau gorau i Ray a diolch am ei waith yn ystod ei gyfnod gyda ni.

Mae ***Pavithra Murugan*** wedi ymuno â'r Tîm Datblygu Ystadau. Pavithra yw ein Huwch Ddadansoddwr Data newydd yn GYA. Mae ganddi dros 8 mlynedd o brofiad ym maes TG.


Mae ***Ashley Wood*** hefyd wedi ymuno â'r Tîm Datblygu Ystadau fel Uwch Gynghorydd Ystadau. Cyn hynny, bu Ashley yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.



**Ar hyn o bryd rydym yn hysbysebu sawl swydd yn GYA felly rydym yn disgwyl mwy o benodiadau cyffrous yn y dyfodol agos.**



**Swyddi Gwag Presennol - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru**



# Y Gornel Hanes: Ysbyty Glanrhyd

Ysbyty seiciatrig ym Mhen-y-fai ger Pen-y-bont ar Ogwr yw Ysbyty Glanrhyd. Daw'r ysbyty o dan awdurdodaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Dyluniwyd yr adeilad gwreiddiol gan William Martin a John Henry Chamberlain yn arddull yr Adfywiad Gothig gan ddefnyddio cynllun coridor llinellol. Fe'i hagorwyd yn wreiddiol fel Gwallgofdy Sir Forgannwg ym mis Tachwedd 1864. Yn ddiweddarach, ym 1922, daeth yn Ysbyty Meddwl Sir Forgannwg. Erbyn 1948, ymunodd â'r GIG o dan ei enw presennol. Yn 2014, adeiladwyd uned diogelwch isel newydd o'r enw Taith Newydd.

Mae gan yr adeilad newydd arwynebedd llawr gros o tua 4,250 metr sgwâr. Mae'r cynllun yn darparu 42 o welyau mewn 5 ward, gan gynnwys gofal parhaus, adsefydlu ac ymddygiad heriol.

Ystyriwyd y tŵr dŵr Fictoraidd yn ganolbwynt o fewn cynllun safle'r ysbyty, felly cadwodd y contractwyr (Stride Treglown) ef a'i ymgorffori yn y datblygiad newydd. Ymunodd Ysbyty Glanrhyd â Choedwig y GIG yn 2021. Mae man gwyrdd y safle'n cynnwys coetir cymysg wedi'i blannu sy'n rhannu meysydd parcio arwyneb solet, ynghyd ag ardaloedd o weirglodd 'di-dor', gerddi cwrt therapiwtig a gwrychoedd o amgylch adeiladau'r safle. Plannwyd 15 o goed Coedwig y GIG yn 2022.

Yn 2022, rhestrwyd tiroedd yr ysbyty fel Gradd II gan Cadw/Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS) Cofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru. Dywedodd Cadw fod y tiroedd o bwysigrwydd hanesyddol ac yn 'enghraifft o erddi a thiroedd wedi'u dylunio ar gyfer tirlun seilam o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg'.



Ysbyty Glanrhyd

Gwasanaethau Ystadau Arbenigol

# CYLCHLYTHYR

## Gwanwyn 2025


ses.info@wales.nhs.uk

NHS Wales Shared Services Partnership
- Specialist Estates Services

www.nwssp.wales.nhs.uk

Specialist Estates Services,
4th Floor,
Companies House,
Crown Way,
Cardiff,
CF14 3UB



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services Partnership
Specialist Estates Services